



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2016 Rhif 80 (Cy. 37)

2016 No. 80 (W. 37)

**RHEOLI PERYGL
LLIFOGYDD, CYMRU**

**FLOOD RISK MANAGEMENT,
WALES**

Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr
1975 (Capasiti, Cofrestru,
Ffurflenni Rhagnodedig, etc.)
(Cymru) 2016

The Reservoirs Act 1975 (Capacity,
Registration, Prescribed Forms,
etc.) (Wales) Regulations 2016

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

At ddibenion Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (p.23) (“Deddf 1975”), mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer y canlynol —

For the purposes of the Reservoirs Act 1975 (c.23) (“the 1975 Act”), these Regulations provide for—

- (a) sut i gyfrifo capasiti at ddibenion adran A1 o Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 (rheoliad 3);
- (b) y wybodaeth am gyfgronfa ddŵr fawr sydd i'w chofrestru (rheoliad 4); hysbysiad o newidiadau i gofrestr Cymru yn ogystal â chadw ac arolygu'r gofrestr (rheoliad 5 a 6);
- (c) llunio adroddiadau gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru (“CANC”) i Weinidogion Cymru a chynnwys yr adroddiadau (rheoliad 7);
- (d) ffurf y cofnod y mae'n rhaid ei gadw ar gyfer cronfa ddŵr perygl uchel a'r wybodaeth y mae'n rhaid ei nodi yn y cofnod hwnnw (rheoliad 8);
- (e) ffurf y tystysgrifau peirianwyr (rheoliad 9); ffurf yr adroddiadau peirianwyr (rheoliad 10) a ffurf y cyfarwyddiadau peirianwyr (rheoliad 11);
- (f) yr wybodaeth y mae'n rhaid i ymgymerwyr ei darparu pan yn bwriadu adeiladu cronfa ddŵr neu ail-ddechrau defnyddio cyfgronfa ddŵr fawr (rheoliad 12); a
- (g) llunio adroddiadau gan ymgymerwyr i CANC mewn perthynas â digwyddiadau cysylltiedig â rhyddhau dŵr heb reolaeth o gyfgronfa ddŵr fawr pan fo mesurau brys yn cael eu cymryd (rheoliad 13).

- (a) how to calculate capacity for the purposes of section A1 of the Reservoirs Act 1975 (regulation 3);
- (b) the information about a large raised reservoir that must be registered (regulation 4); notification of changes to, and the keeping and inspection of, the Welsh register (regulations 5 and 6);
- (c) the making and content of reports by the Natural Resources Body for Wales (“NRBW”) to the Welsh Ministers (regulation 7);
- (d) the form of record to be kept for a high-risk reservoir and the information to be given in that record (regulation 8);
- (e) the form of certificates of engineers (regulation 9); the form of reports of engineers (regulation 10); and the form of directions of engineers (regulation 11);
- (f) the information to be provided by undertakers when intending to construct or bring back into use a large raised reservoir (regulation 12); and
- (g) the making of reports by undertakers to the NRBW in relation to incidents relating to the uncontrolled release of water from a large raised reservoir where emergency measures are taken (regulation 13).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Cofrestrau, Adroddiadau a Chofnodion) 1985 (O.S. 1985/177), Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Cofrestrau, Adroddiadau a Chofnodion) (Diwygio) 1985 (O.S. 1985/548) a Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Tystysgrifau, Adroddiadau a Gwybodaeth Ragnodedig) 1986 (O.S. 1986/468) (rheoliad 15). Disodlir y Rheoliadau hynny gan y darpariaethau yn rheoliadau 4, 6, 8 i 10 a 12.

Mae adran A1(4) o Ddeddf 1975 yn ei gwneud yn ofynnol i lunio rheoliadau ynglŷn â'r ffordd y dylid cyfrifo capasiti at ddiben sefydlu a yw adeiledd neu fan uwch yn fawr o dan adran A1(3) o Ddeddf 1975. Mae rheoliad 3 yn gwneud y ddarpariaeth hon.

O dan adran 2(2) o Ddeddf 1975 mae'n ofynnol i CANC gadw cofrestr sy'n cynnwys gwybodaeth ragnodedig ynglŷn â chyforgronfeydd mawr. Mae rheoliad 4 yn rhagnodi'r wybodaeth y dylai cofrestr Cymru ei chynnwys am gyforgronfeydd mawr.

Mae rheoliad 5 yn darparu bod yr ymgwymerwr i CANC yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau neu newidiadau arfaethedig a wnaed neu y cynigir eu gwneud i'r wybodaeth y mae gofyn ei chadw ar gofrestr Cymru. Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol bod cofrestr Cymru a chopïau ohoni yn cael eu cadw ym mhrif swyddfa CANC a bod CANC yn sicrhau bod gwybodaeth benodol y mae'n ofynnol iddi fod yng Nghofrestr Cymru ynddi.

Mae rheoliad 7 yn pennu amseriad yr adroddiadau y mae'n rhaid i'r CANC eu paratoi i Weinidogion Cymru o dan adran 3(1) o Ddeddf 1975; yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chyflwyno yn yr adroddiadau hynny.

Mae rheoliad 8 yn rhagnodi'r ffurf y mae'n ofynnol i gofnod o dan adran 11(1) o Ddeddf 1975 gael ei gadw arni gan ymgwymerwr cronfa ddŵr perygl uchel a'r materion y mae'n rhaid i ymgwymerwyr cronfeydd dŵr perygl uchel gadw cofnod ohonynt yn ogystal â'r rhai a nodir yn adran 11(1)(a) a (b) o Ddeddf 1975.

Mae rheoliadau 9 i 11 yn rhagnodi, fel y darperir gan adran 20(1) o Ddeddf 1975, ffurf yr amrywiol dystysgrifau, cyfarwyddiadau ac adroddiadau pan fo Deddf 1975 yn gofyn bod tystysgrifau neu gyfarwyddiadau'n cael eu rhoi neu adroddiad yn cael ei baratoi gan beiriannydd sifil sy'n ymwneud â gwaith cysylltiedig â chyforgronfa ddŵr fawr.

Mae rheoliad 12 yn rhagnodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad o dan adran 21(1) o Ddeddf 1975 y mae'n ofynnol i ymgwymerwr, sy'n bwriadu adeiladu cyforgronfa ddŵr fawr neu ail-ddechrau defnyddio cyforgronfa ddŵr fawr, ei gyflwyno i CANC.

These Regulations also revoke the Reservoirs Act 1975 (Registers, Reports and Records) Regulations 1985 (S.I. 1985/177), the Reservoirs Act 1975 (Registers, Reports and Records) (Amendment) Regulations 1985 (S.I. 1985/548) and the Reservoirs Act 1975 (Certificates, Reports and Prescribed Information) Regulations 1986 (S.I. 1986/468) (regulation 15). Those Regulations are replaced by the provisions in regulations 4, 6, 8 to 10 and 12.

Section A1(4) of the 1975 Act requires regulations to be made about how to calculate capacity for the purpose of establishing whether a raised structure or area is large under section A1(3) of the 1975 Act. Regulation 3 makes this provision.

Under section 2(2) of the 1975 Act the NRBW is required to maintain a register containing prescribed information about large raised reservoirs. Regulation 4 prescribes the information about large raised reservoirs that the Welsh register is to contain.

Regulation 5 provides for notification by the undertaker to the NRBW of any changes or proposed changes to the information required to be held in the Welsh register. Regulation 6 requires that the Welsh register and copies of it be kept at the principal office of the NRBW and that the NRBW ensure that certain information required to be in the Welsh register is in it.

Regulation 7 specifies the timing of reports to be made by the NRBW to the Welsh Ministers under section 3(1) of the 1975 Act; the information to be given in those reports.

Regulation 8 prescribes the form in which a record under section 11(1) of the 1975 Act which an undertaker of a high-risk reservoir is required to keep and the matters, additional to those specified in section 11(1)(a) and (b) of the 1975 Act, about which undertakers of high-risk reservoirs have to keep a record of.

Regulations 9 to 11 prescribe, as provided by section 20(1) of the 1975 Act, the form of various certificates, directions and reports where the 1975 Act requires the giving of certificates or directions or the making of a report by a civil engineer engaged in work in connection with a large raised reservoir.

Regulation 12 prescribes the information which must be contained in a notice under section 21(1) of the 1975 Act which an undertaker, who intends to construct or bring back into use a large raised reservoir, is required to serve on the NRBW.

Mae rheoliad 13 yn rhagnodi ffurf adroddiad y mae'n rhaid ei baratoi o dan adran 21B o'r Ddeddf, ac yn pennu'r digwyddiadau y dylid gwneud adroddiad o'r fath mewn cysylltiad â hwy.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o gostau a buddiannau tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi gan Is-adran Ynni, Dŵr a Llifogydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Regulation 13 prescribes the form of, and specifies the incidents in relation to which, a report under section 21B of the Act is to be made.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared, as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Energy, Water and Flood Division of the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2016 Rhif 80 (Cy. 37)

**RHEOLI PERYGL
LLIFOGYDD, CYMRU**

Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr
1975 (Capasiti, Cofrestru,
Ffurflenni Rhagnodedig, etc.)
(Cymru) 2016

Gwnaed 27 Ionawr 2016

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 29 Ionawr 2016

Yn dod i rym 1 Ebrill 2016

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau A1(4), 2(2) a (2C) i (2E), 3(1), 5, 11, 20(1), 21(1) a 21B o Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975(1).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Capasiti, Cofrestru, Ffurflenni Rhagnodedig, etc.) (Cymru) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2016.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

2016 No. 80 (W. 37)

**FLOOD RISK MANAGEMENT,
WALES**

The Reservoirs Act 1975 (Capacity,
Registration, Prescribed Forms,
etc.) (Wales) Regulations 2016

Made 27 January 2016

*Laid before the National Assembly
for Wales* 29 January 2016

Coming into force 1 April 2016

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections A1(4), 2(2) and (2C) to (2E), 3(1), 5, 11, 20(1), 21(1) and 21B of the Reservoirs Act 1975(1), make the following Regulations.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Reservoirs Act 1975 (Capacity, Registration, Prescribed Forms, etc.) (Wales) Regulations 2016.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2016.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

(1) 1975 (p. 23). Mewnosodwyd adrannau A1, 2(2B) i 2(2E) a 21B mewn perthynas â Lloegr a Chymru gan adran 33 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p.29) a pharagraffau 1, 2, 4 a 33 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno. Diwygiwyd adrannau 5, 11, 20 a 21 mewn perthynas â Lloegr a Chymru gan baragraff 33 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p.29) a pharagraffau 5, 16 i 18, 23, 26, 28, 31 a 38 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno. Diwygiwyd adrannau 2, 3, 20 a 21 gan adran 74 a 78 o Ddeddf Dŵr 2003 (p.37). Diwygiwyd adran 2, 2A i 2D ac adran 21B eto gan erthygl 4(1) o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. 2013/755) (Cy. 90) a pharagraffau 117, 119, 120 a 122 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwnnw.

(1) 1975 (c.23). Sections A1, 2(2B) to 2(2E) and 21B were inserted in relation to England and Wales by section 33 of, and paragraphs 1, 2, 4 and 33 of Schedule 4 to, the Flood and Water Management Act 2010 (c.29). Sections 5, 11, 20 and 21 were amended in relation to England and Wales by paragraph 33 of, and paragraphs 5, 16 to 18, 23, 26, 28, 31 and 38 of Schedule 4 to, the Flood and Water Management Act 2010 (c.29). Sections 2, 3, 20 and 21 were amended by section 74 and 78 of the Water Act 2003 (c.37). Sections 2, 2A to 2D and section 21B were further amended by Article 4(1) of and paragraph 117, 119, 120 and 122 of Schedule 2 to, the Natural Resources Body for Wales (Functions) Order 2013 (S.I. 2013/755) (W. 90).

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “adeiledd” (“*structure*”) yw argae, wal cronfa ddŵr neu arglawdd sy'n dal dŵr;

ystyr “CANC” (“*the NRBW*”) yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

ystyr “cofrestr Cymru” (“*Welsh register*”) yw'r gofrestr y mae'n ofynnol i CANC ei sefydlu a'i chynnal o dan adran 2(2) o Ddeddf 1975;

ystyr “Deddf 1930” (“*the 1930 Act*”) yw Deddf Cronfeydd Dŵr (Darpariaethau Diogelwch) 1930 (1);

ystyr “Deddf 1975” (“*Deddf 1975*”) yw Deddf Cronfeydd Dŵr 1975;

“lefel naturiol” (“*natural level*”) yw lefel y tir naturiol sydd yn weddill ar ôl adeiladu neu ar ôl unrhyw addasiad i gyforgronfa ddŵr fawr;

mae “lefel naturiol isaf unrhyw ran o'r tir amgylchynol” (“*lowest natural level of any part of the surrounding land*”) yn cynnwys lefel isaf gwely unrhyw gwrs dŵr;

ystyr “lefel uchaf y dŵr” (“*top water level*”) yw—

- (a) yn achos cronfa ddŵr sydd â silff orlif sefydlog, lefel brig isaf y silff honno;
- (b) yn achos cronfa ddŵr, y gorlif a reolir yn llwyr neu'n rhannol gan giatiau symudol, seiffonau, neu mewn ffordd arall, y lefel uchaf y gellir storio dŵr heb gynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer storio llifogydd; neu
- (c) yn achos cronfa ddŵr a gynlluniwyd at ddibenion dal llifddwr yn ôl, lefel uchaf y llifddwr y gellir ei storio yn ystod unrhyw lifogydd heb gynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gorlif.

ystyr “panel” (“*panel*”) yw panel o beirianwyr sifil a gyfansoddwyd o dan adran 4 o Ddeddf 1975(2):

ystyr “tir amgylchynol” (“*surrounding land*”) yw tir cyfagos i gyforgronfa ddŵr fawr;

ystyr “troed” (“*troed*”) yw'r pwynt ar yr ochr i lawr yr afon o'r adeiledd sydd yn ffurfio rhan o'r gronfa ddŵr lle mae ei sylfaen yn cwrdd â lefel naturiol isaf unrhyw ran o'r tir o'i gwmpas.

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

“the 1930 Act” (“*Deddf 1930*”) means the Reservoirs (Safety Provisions) Act 1930(1);

“the 1975 Act” (“*Deddf 1975*”) means the Reservoirs Act 1975;

“the NRBW” (“*CANC*”) means the Natural Resources Body for Wales;

“Welsh register” (“*cofrestr Cymru*”) means the register required to be established and maintained by the NRBW under section 2(2) of the 1975 Act;

“lowest natural level of any part of the surrounding land” (“*lefel naturiol isaf unrhyw ran o'r tir amgylchynol*”) includes the lowest bed level of any watercourse;

“natural level” (“*lefel naturiol*”) is the level of the natural land remaining after the construction or any alteration of a large raised reservoir;

“panel” (“*panel*”) means a panel of civil engineers constituted under section 4 of the 1975 Act(2);

“structure” (“*adeiledd*”) means a dam, reservoir wall or embankment that retains water;

“surrounding land” (“*tir amgylchynol*”) means the land contiguous to a large raised reservoir;

“toe” (“*troed*”) means the point on the downstream side of a structure forming part of the reservoir where its base meets the lowest natural level of any part of the surrounding land;

“top water level” (“*lefel uchaf y dŵr*”) means—

- (a) in the case of a reservoir with a fixed overflow sill, the lowest crest level of that sill;
- (b) in the case of a reservoir, the overflow from which is controlled wholly or partly by moveable gates, syphons or otherwise, the maximum level to which water may be stored exclusive of any provision for flood storage; or
- (c) in the case of a reservoir designed for the purposes of holding back floodwater, the maximum level to which floodwater may be stored during any flood event exclusive of any provision for overflow.

(1) 1930 (p.51). Diddymwyd y Ddeddf hon gydag arbedion o Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975, adrannau 23 a 28.

(2) Diwygiwyd adran 4 mewn perthynas â Lloegr a Chymru gan adran 33 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p.29) a pharagraff 9 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno.

(1) 1930 (c.51). This Act was repealed with savings by the Reservoirs Act 1975, sections 23 and 28.

(2) Section 4 was amended in relation to England and Wales by section 33 of, and paragraph 9 of Schedule 4 to, the Flood and Water Management Act 2010 (c.29).

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

- (a) rhaid i unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol neu hysbysiad a roddir fod yn ysgrifenedig;
- (b) mae cyfeiriad at unrhyw ddogfen neu wybodaeth yn cynnwys y ddogfen neu'r wybodaeth honno ar ffurf electronig;
- (c) bernir bod unrhyw ddogfen neu wybodaeth a gafodd ei chyfathrebu mewn dull electronig -
 - (i) wedi ei hanfon pan fo modd i'r anfonwr gynhyrchu copi o'r cyfathrebiad electronig—
 - (aa) a oedd yn cynnwys y ddogfen neu'r wybodaeth;
 - (bb) sy'n dangos dyddiad ac amser anfon y neges; ac
 - (cc) yn dangos bod y ddogfen wedi ei hanfon i'r derbynnydd;
 - (ii) wedi ei hanfon gan y person yr honnir a'i hanfonodd; ac
 - (iii) nas ymyrrwyd â hi na'i haddasu mewn unrhyw fodd arall;
- (d) gellir bodloni unrhyw gais am lofnod mewn adroddiad, tystysgrif neu gyfarwyddiadau y mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â hwy gyda llofnod electronig a'i gynnwys yn y ddogfen;
- (e) ystyr "lofnod electronig" ("*electronic signature*") yw data ar ffurf electronig sydd wedi ei atodi i ddata electronig arall neu ei gysylltu'n rhesymol â data electronig arall ac sy'n gweithredu fel dull dilysu.

Cyfrifo capasiti

3.—(1) At ddibenion adran A1(3) o Ddeddf 1975 rhaid cyfrifo capasiti cyfgronfa ddŵr fawr drwy fesur y cyfaint mwyaf o ddŵr mewn metrau ciwbic y gellir ei storio—

- (a) uwchben gwely'r gronfa ddŵr; a
- (b) rhwng troed y gronfa ddŵr a lefel uchaf y dŵr

(2) Ni ddylid cynnwys dŵr sy'n is na lefel naturiol unrhyw ran o'r tir amgylchynol yn y cyfrifiad.

(3) Yn y rheoliad hwn mae "gwely'r gronfa ddŵr" ("*bed of the reservoir*") yn cynnwys unrhyw silt neu ddeunydd arall y mae'r peiriannydd sy'n rhoi'r dystysgrif derfynol, neu'n rhoi tystysgrif o dan adran 13(2) o Ddeddf 1975, yn barnu nad oes modd iddo lifo allan o'r gronfa ddŵr dros dir naturiol mewn achos lle caiff dŵr ei ryddhau heb reolaeth o'r gronfa ddŵr.

(2) In these Regulations—

- (a) any information required or notification given must be in writing;
- (b) a reference to any document or information includes that document or information in electronic form;
- (c) any document or information communicated by electronic means is deemed—
 - (i) to have been sent where the sender can produce a copy of the electronic communication which—
 - (aa) contained the document or information;
 - (bb) shows the time and date the message was sent; and
 - (cc) shows that the document was sent to the recipient;
 - (ii) to have been sent by the person from whom it purports to originate; and
 - (iii) not to have been tampered with or otherwise modified;
- (d) any requirement for a signature in a report, certificate or directions to which these Regulations apply may be satisfied by an electronic signature incorporated into the document;
- (e) "electronic signature" ("*lofnod electronig*") means data in electronic form which are attached to or logically associated with other electronic data and which serve as a method of authentication.

Calculation of capacity

3.—(1) For the purposes of section A1(3) of the 1975 Act capacity of a large raised reservoir is to be calculated by measuring the maximum volume of water in cubic metres capable of being stored—

- (a) above the bed of the reservoir; and
- (b) between the toe of the reservoir and its top water level.

(2) Water below the natural level of any part of the surrounding land is not to be included in the calculation.

(3) In this regulation "bed of the reservoir" ("*gwely'r gronfa ddŵr*") includes any silt or other material that is judged by the engineer giving a final certificate, or giving a certificate under section 13(2) of the 1975 Act, to be incapable of flowing out of the reservoir over natural land in the event of an uncontrolled release of water from the reservoir.

Gofynion cofrestru

4.—(1) At ddiben adran 2(2C) o Ddeddf 1975 yr wybodaeth y mae'n rhaid i ymgwymerwr cyfgronfa ddŵr fawr ei chofrestru gyda CANC yw'r wybodaeth a ragnodir yn Atodlen 1, paragraffau 1 i 7.

(2) Rhaid i'r wybodaeth a ragnodir yn Atodlen 1 gael ei chofrestru—

- (a) cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn gyda dyddiad cyflwyno tystysgrif derfynol a roddir yn unol ag adran 7 o Ddeddf 1975(1) mewn perthynas ag—
 - (i) adeiladu cronfa ddŵr newydd;
 - (ii) addasu adeiledd neu fan presennol nad oedd yn gyfgronfa ddŵr fawr cyn yr addasiad; neu
 - (iii) addasu rhan o gronfa ddŵr nad oedd yn gyfgronfa ddŵr fawr cyn ei haddasu;
- (b) o fewn 6 mis i gofrestru o dan adran 2(2C) o Ddeddf 1975,
pa bynnag un sy'n digwydd gyntaf.

Hysbysiad o newidiadau i gofrestr Cymru

5.—(1) Pan fo newid neu ychwanegiad wedi ei wneud i unrhyw ran o'r wybodaeth a gofrestrir yn unol â rheoliad 4, rhaid i'r ymgwymerwr roi gwybodaeth ddiweddar berthnasol i CANC o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y newid neu'r ychwanegiad.

(2) Gall CANC ofyn am gadarnhad o'r ymgwymerwr bod unrhyw wybodaeth neu'r holl wybodaeth a roddwyd gan yr ymgwymerwr hwnnw at ddibenion cofrestr Cymru yn gyfoes neu'n gyflawn.

(3) Pan fo paragraff (2) yn berthnasol, heb ragfarn i baragraffau (4), (6) ac (8), rhaid i'r ymgwymerwr, o fewn 28 diwrnod yn dechrau o'r diwrnod y mae CANC yn gofyn am gadarnhad o'r fath—

- (a) cadarnhau bod yr wybodaeth berthnasol wedi ei diweddarau neu, pan fo unrhyw ran o'r wybodaeth honno ddim wedi ei diweddarau, ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf; a
- (b) pan fo unrhyw ran o'r wybodaeth yn anghyflawn neu ar goll, ddarparu'r wybodaeth gyflawn neu'r wybodaeth sydd ar goll.

(4) Pan gynnigir gwneud addasiad sy'n cynyddu neu'n lleihau capasiti cyfgronfa ddŵr fawr, rhaid i'r ymgwymerwr hysbysu CANC ddim llai na 28 diwrnod cyn dechrau'r gwaith addasu.

Registration requirements

4.—(1) For the purpose of section 2(2C) of the 1975 Act, the information that is to be registered with the NRBW by an undertaker of a large raised reservoir is that prescribed in Schedule 1, paragraphs 1 to 7.

(2) The information prescribed in Schedule 1 must be registered—

- (a) before the end of the period of 28 days beginning with the day of the issue of a final certificate given in accordance with section 7 of the 1975 Act(1) in relation to—
 - (i) the construction of a new reservoir;
 - (ii) the alteration of an existing structure or area that prior to its alteration was not a large raised reservoir; or
 - (iii) the alteration of an area of a reservoir that prior to its alteration was not a large raised reservoir;
- (b) within 6 months of registration under section 2(2C) of the 1975 Act,
whichever is the sooner.

Notification of changes to the Welsh register

5.—(1) Where there has been a change or addition to any of the information registered in accordance with regulation 4, the undertaker must provide the NRBW with the relevant up to date information within 28 days of the date of the change or addition.

(2) The NRBW may request confirmation from the undertaker that any or all of the information given by that undertaker for the purposes of the Welsh register is up to date or complete.

(3) Where paragraph (2) applies, without prejudice to paragraphs (4), (6) and (8), the undertaker must within 28 days beginning with the day on which the NRBW requests such confirmation—

- (a) confirm that the relevant information is up to date or, where any of that information is not up to date, provide the up to date information; and
- (b) where any of the information is not complete or is missing, provide the complete or missing information.

(4) Where an alteration so as to increase or decrease the capacity of a large raised reservoir is proposed to be carried out, the undertaker must notify the NRBW not less than 28 days before the commencement of alteration works.

(1) Addaswyd adran 7 mewn perthynas â Lloegr a Chymru gan adran 33 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p.29) a paragraffau 8 ac 11 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno.

(1) Section 7 was amended in relation to England and Wales by section 33 of, and paragraphs 8 and 11 of Schedule 4 to, the Flood and Water Management Act 2010 (c.29).

(5) Rhaid i hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (4) gynnwys y wybodaeth ganlynol—

- (a) dyddiad arfaethedig dechrau ar yr addasiad;
- (b) disgrifiad o natur a graddau y gwaith arfaethedig i'r gyfgronfa ddŵr fawr.

(6) Pan gynigir rhoi'r gorau i ddefnyddio cyfgronfa ddŵr fawr o dan adran 14 o Ddeddf 1975(1), rhaid i'r ymgymerwr hysbysu CANC ddim llai na 28 diwrnod cyn gweithredu ar y cynnig i roi'r gorau i'w defnyddio.

(7) Rhaid i hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (6) gynnwys dyddiad arfaethedig rhoi'r gorau i ddefnyddio'r gyfgronfa ddŵr fawr.

(8) Pan fo peiriannydd adeiladu, goruchwyllo neu arolygu'n cael ei benodi at ddibenion Deddf 1975, rhaid i'r ymgymerwr hysbysu CANC o ddyddiad y penodiad o fewn 28 diwrnod.

(9) Rhaid i'r ymgymerwr hysbysu CANC o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y mae peiriannydd yn—

- (a) peidio â bod yn beiriannydd adeiladu cyn i'r peiriannydd hwnnw gyflwyno tystysgrif derfynol;
- (b) peidio â bod yn beiriannydd arolygu neu oruchwyllo.

(10) Rhaid i ymgymerwr sy'n bwriadu rhoi'r gorau i fod yn ymgymerwr roi'r wybodaeth a ganlyn i CANC—

- (a) y dyddiad y mae'r ymgymerwr yn bwriadu rhoi'r gorau i swyddogaeth yr ymgymerwr;
- (b) enw a chyfeiriad yr unigolyn y bwriedir iddo fod yr ymgymerwr newydd;
- (c) y dyddiad y bwriedir i'r unigolyn hwnnw fod yr ymgymerwr newydd.

Cadw ac arolygu cofrestr Cymru

6.—(1) Rhaid i gofrestr Cymru gael ei chadw ym mhrif swyddfa CANC(2).

(2) Rhaid i CANC gofnodi'r wybodaeth a ragnodir yn Atodlen 1, paragraffau 8 i 10 yng nghofrestr Cymru.

Adroddiadau gan CANC i Weinidogion Cymru

7.—(1) At ddibenion adran 3(1) o Ddeddf 1975, rhaid i CANC adrodd i Weinidogion Cymru –

(5) A notification referred to in paragraph (4) must contain the following information—

- (a) the date of the proposed commencement of the alteration;
- (b) a description of the nature and extent of the proposed work to the large raised reservoir.

(6) Where it is proposed that the use of a large raised reservoir be abandoned under section 14 of the 1975 Act(1), the undertaker must notify the NRBW not less than 28 days before any such proposed abandonment of use.

(7) A notification referred to in paragraph (6) must include the proposed commencement date of the abandonment of use.

(8) Where a construction, supervising or inspecting engineer is appointed for the purposes of the 1975 Act, the undertaker must notify NRBW of the date of the appointment within 28 days.

(9) The undertaker must notify the NRBW within 28 days of the date on which an engineer ceases to be—

- (a) the construction engineer before that engineer has issued a final certificate;
- (b) the inspecting or supervising engineer.

(10) An undertaker who intends to cease being an undertaker must notify the NRBW of—

- (a) the date on which the undertaker intends to cease being the undertaker;
- (b) the name and address of the person who is intended to be the new undertaker;
- (c) the date on which that person is intended to become the new undertaker.

Keeping and inspection of the Welsh register

6.—(1) The Welsh register must be kept at the principal office of the NRBW(2).

(2) The NRBW must record the information prescribed in paragraphs 8 to 10 of Schedule 1 in the Welsh register.

Reports by the NRBW to the Welsh Ministers

7.—(1) For the purposes of section 3(1) of the 1975 Act, the NRBW is to report to the Welsh Ministers –

(1) Addaswyd adran 14 mewn perthynas â Lloegr a Chymru gan adran 33 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p.29), a pharagraff 27 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno.

(2) Cyfeiriad prif swyddfa tîm gorfodi diogelwch cronfeydd dŵr CANC yw Tîm Diogelwch Dŵr, Adnoddau Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP.

(1) Section 14 was amended in relation to England and Wales by section 33 of, and paragraph 27 of Schedule 4 to, the Flood and Water Management Act 2010 (c.29).

(2) The address of the principal office of the NRBW reservoir safety enforcement team is Reservoir Safety Team, Natural Resources Wales, Ty Cambria, 29 Newport Road, Cardiff CF24 0TP.

- (a) yn ddim hwyrach na 30 Medi 2017 mewn perthynas â'r cyfnod 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017; a
- (b) bob dwy flynedd wedi hynny.

(2) Rhaid i CANC gyflwyno'r adroddiad i Weinidogion Cymru yn ddim hwyrach na 6 mis ar ôl diwedd y cyfnod adrodd.

(3) Rhaid i'r adroddiad gadarnhau—

- (a) nifer y cyforganfeydd dŵr mawr sydd wedi eu cofrestru;
- (b) y camau y mae CANC wedi eu cymryd (os cymerwyd unrhyw gamau o gwbl) i sicrhau bod ymgymerydd cyforganfa ddŵr fawr wedi cydymffurfio â gofynion Deddf 1975; ac
- (c) os mai CANC ei hun yw'r ymgymerydd ar gyfer unrhyw gyforganfa ddŵr fawr, datganiad ynghylch—
 - (i) nifer y cyforganfeydd dŵr mawr y mae'n ymgymerydd iddynt; a
 - (ii) unrhyw gamau y mae wedi ei gymryd i arsylwi a chydymffurfio â gofynion Deddf 1975.

Cofnodion o lefelau'r dŵr etc.

8. Er mwyn ymgymryd ag adran 11(1) o Ddeddf 1975, rhaid i ymgymerydd cyforganfa ddŵr fawr perygl uchel –

- (a) cadw cofnod ar y ffurf a ragnodir yn Atodlen 2; a
- (b) cofnodi'r materion a ragnodir yn Atodlen 3.

Ffurf tystysgrifau peirianwyr

9. At ddibenion adran 20(1) o Ddeddf 1975, rhaid i'r tystysgrifau canlynol fod yn y ffurf a ragnodir yn Atodlen 4—

- (a) tystysgrif ragarweiniol a roddir o dan adran 7(1) o Ddeddf 1975;
- (b) tystysgrif interim a roddir o dan adran 7(2) o Ddeddf 1975;
- (c) tystysgrif derfynol a roddir o dan adran 7(3) o Ddeddf 1975;
- (d) tystysgrif gweithredu'r gwaith yn effeithiol a roddir o dan adran 7(6) neu 8(7) o Ddeddf 1975(1);

- (a) in relation to the period 1 April 2016 to 31 March 2017 no later than 30 September 2017; and
- (b) at two yearly intervals thereafter.

(2) The NRBW must submit the report to the Welsh Ministers no later than 6 months after the end of the period to which the report relates.

(3) The report must confirm—

- (a) the number of large raised reservoirs that have been registered;
- (b) the steps (if any) that the NRBW has taken to ensure the undertakers of a large raised reservoir have complied with the requirements of the 1975 Act; and
- (c) if the NRBW is itself the undertaker for any large raised reservoir, a statement as to—
 - (i) the number of large raised reservoirs for which it is the undertaker; and
 - (ii) any steps it has taken to observe and comply with the requirements of the 1975 Act.

Records of water levels etc.

8. To comply with section 11(1) of the 1975 Act, the undertaker of a high risk reservoir must

- (a) keep a record in the form prescribed in Schedule 2; and
- (b) record the matters prescribed in Schedule 3.

Form of certificates of engineers

9. For the purposes of section 20(1) of the 1975 Act, the following certificates must be in the form prescribed in Schedule 4—

- (a) a preliminary certificate given under section 7(1) of the 1975 Act;
- (b) an interim certificate given under section 7(2) of the 1975 Act;
- (c) a final certificate given under section 7(3) of the 1975 Act;
- (d) a certificate of efficient execution of works given under section 7(6) or 8(7) of the 1975 Act(1);

(1) Addaswyd adran 8 mewn perthynas â Lloegr a Chymru gan adran 33 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p.29), a pharagraffau 3 ac 11 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno ac adran 75 o Ddeddf Dŵr 2003 (2003 p.37).

(1) Section 8 was amended in relation to England and Wales by section 33 of, and paragraphs 3 and 11 of Schedule 4 to, the Flood and Water Management Act 2010 (c.29) and section 75 of the Water Act 2003 (2003 c.37).

- | | |
|---|--|
| <ul style="list-style-type: none"> (e) tystysgrif a roddir o dan adran 10(5) o Ddeddf 1975(1) ynghylch adroddiad peiriannydd arolygu; (f) tystysgrif a roddir o dan adran 10(6) o Ddeddf 1975 ynghylch gweithredu ar argymhellion diogelwch; (g) tystysgrif a roddir o dan adran 12AA(3) o Ddeddf 1975(2) ynghylch bodloni gofynion cyfarwyddyd i baratoi cynllun llifogydd; (h) tystysgrif interim a roddir o dan adran 13(1A) o Ddeddf 1975; (i) tystysgrif a roddir o dan adran 13(2) o Ddeddf 1975 ynghylch cwblhad a gweithrediad effeithlon addasiad er mwyn rhoi'r gorau i ddefnyddio cyforgronfa ddŵr fawr; (j) tystysgrif a roddir o dan adran 14(3) o Ddeddf 1975 ynghylch adroddiad peiriannydd; (k) tystysgrif a roddir o dan adran 15(2) o Ddeddf 1975(3) ynghylch gweithredu ar argymhellion diogelwch; neu (l) tystysgrif canolwr a roddir o dan adran 19(4) o Ddeddf 1975(4). | <ul style="list-style-type: none"> (e) a certificate given under section 10(5) of the 1975 Act(1) as to the report of an inspecting engineer; (f) a certificate given under section 10(6) of the 1975 Act as to the carrying into effect of safety recommendations; (g) a certificate given under section 12AA(3) of the 1975 Act(2) as to the satisfaction of the requirements of a direction to prepare a flood plan; (h) an interim certificate given under section 13(1A) of the 1975 Act; (i) a certificate given under section 13(2) of the 1975 Act as to the completion and efficient execution of an alteration so as to discontinue a large raised reservoir; (j) a certificate given under section 14(3) of the 1975 Act as to the report of an engineer; (k) a certificate given under section 15(2) of the 1975 Act(3) as to the carrying into effect of safety recommendations; or (l) a referee's certificate given under section 19(4) of the 1975 Act(4). |
|---|--|

Ffurf adroddiadau peirianwyr

10. At ddibenion adran 20(1) o Ddeddf 1975, rhaid i'r adroddiadau canlynol fod yn y ffurf a ragnodir yn Atodlen 5—

- (a) adroddiad peiriannydd o dan adran 8(2) o Ddeddf 1975 a wnaed ar adeiladu neu addasu cyforgronfa ddŵr fawr;
- (b) adroddiad peiriannydd o dan adran 9(1) o Ddeddf 1975 a wnaed cyn ail-ddefnyddio cyforgronfa ddŵr fawr a adawyd;
- (c) adroddiad o dan adran 10(1) o Ddeddf 1975 a wnaed ar ôl arolygiad peiriannydd o gyforgronfa ddŵr fawr perygl uchel;
- (d) adroddiad peiriannydd o dan adran 14(1) o Ddeddf 1975 ynghylch camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â gadael cyforgronfa ddŵr fawr.

Form of reports of engineers

10. For the purposes of section 20(1) of the 1975 Act, the following reports must be in the form prescribed in Schedule 5—

- (a) a report under section 8(2) of the 1975 Act of an engineer made on the construction or alteration of a large raised reservoir;
- (b) a report under section 9(1) of the 1975 Act of an engineer made before the re-use of an abandoned large raised reservoir;
- (c) a report under section 10(1) of the 1975 Act made following an engineer's inspection of a high-risk reservoir;
- (d) a report under section 14(1) of the 1975 Act of an engineer as to measures that ought to be taken on abandonment of a large raised reservoir.

(1) Diwygiwyd adran 10 mewn perthynas â Lloegr a Chymru gan adran 33 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p.29), a pharagraffau 11 ac 12 o Atodlen 4 i'r ddeddf honno.

(2) Mewnosodwyd adran 12AA mewn perthynas â Lloegr a Chymru gan adran 33 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29), a pharagraff 21 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno.

(3) Diwygiwyd adran 15 mewn perthynas â Lloegr a Chymru gan adran 33 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p.29), a pharagraff 26 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno ac adran 75 o Ddeddf Dŵr 2003 (p.37).

(4) Diwygiwyd adran 19 mewn perthynas â Lloegr a Chymru gan adran 33 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p.29) a pharagraff 14 a 22 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno.

(1) Section 10 was amended in relation to England and Wales by section 33 of, and paragraphs 11 and 12 of Schedule 4 to, the Flood and Water Management Act 2010 (c.29).

(2) Section 12AA was inserted in relation to England and Wales by section 33 of, and paragraph 21 of Schedule 4 to, the Flood and Water Management Act 2010 (c.29).

(3) Section 15 was amended in relation to England and Wales by section 33 of, and paragraph 26 of Schedule 4 to, the Flood and Water Management Act 2010 (c.29) and section 75 of the Water Act 2003 (c.37).

(4) Section 19 was amended in relation to England and Wales by section 33 of, and paragraph 14 and 22 of Schedule 4 to, the Flood and Water Management Act 2010 (c.29).

Ffurf cyfarwyddiadau peirianwyr

11. At ddibenion adran 20(1) o Ddeddf 1975, rhaid i'r cyfarwyddiadau canlynol fod yn y ffurf a ragnodir yn Atodlen 6—

- (a) cyfarwyddyd a wneir o dan adran 11(2) o Ddeddf 1975 (cofnodi lefelau dŵr etc.);
- (b) cyfarwyddyd a wneir o dan adran 12(6) o Ddeddf 1975(1) (goruchwyllo cronfeydd dŵr: arolygiad gweledol gan yr ymgwymerwr);
- (c) cyfarwyddyd a wneir o dan adran 12AA(4) o Ddeddf 1975 (cynlluniau llifogydd: profi);
- (d) cyfarwyddyd a wneir o dan adran 12AA(7) o Ddeddf 1975 (cynlluniau llifogydd; diwygiad); neu
- (e) cyfarwyddyd a wneir o dan adran 19(4A) o Ddeddf 1975 (cyfeirio argymhellion sy'n destun dadl at ganolwr: cyfarwyddyd i beiriannydd i gyflwyno tystysgrif).

Gwybodaeth ragnodedig o dan adran 21(1) o Ddeddf 1975 i gael ei darparu gan ymgwymerwyr wrth fwriadu adeiladu cyforganfa ddŵr fawr neu ail-ddechrau defnyddio cyforganfa ddŵr fawr

12. Yr wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi mewn hysbysiad a gyflwynir gan ymgwymerwr i CANC o dan adran 21(1) o Ddeddf 1975 yw'r wybodaeth a ragnodir yn Atodlen 7.

Adroddiadau i CANC

13.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ddigwyddiad—

- (a) sy'n arwain at, neu a allai arwain at, ryddhau dŵr heb reolaeth o gyforganfa ddŵr fawr; a
- (b) y mae camau brys wedi eu cymryd mewn perthynas ag ef er mwyn atal rhyddhau unrhyw ddŵr neu ddŵr pellach heb reolaeth o gyforganfa ddŵr fawr ac i leihau'r perygl i fywyd dynol.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i'r ymgwymerwr anfon y canlynol at CANC—

- (a) adroddiad rhagarweiniol o'r digwyddiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau ar y mesurau brys; a
- (b) adroddiad terfynol o'r digwyddiad o fewn un flwyddyn, gan ddechrau gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod y dechreuodd y mesurau brys.

Forms of directions of engineers

11. For the purposes of section 20(1) of the 1975 Act, the following directions must be in the form prescribed in Schedule 6—

- (a) a direction made under section 11(2) of the 1975 Act (recording of water levels etc.);
- (b) a direction made under section 12(6) of the 1975 Act(1) (supervision of reservoirs: visual inspection by undertaker);
- (c) a direction made under section 12AA(4) of the 1975 Act (flood plans: testing);
- (d) a direction made under section 12AA(7) of the 1975 Act (flood plans: revision); or
- (e) a direction made under section 19(4A) of the 1975 Act (reference of disputed recommendations to a referee: direction to engineer to issue a certificate).

Prescribed information under section 21(1) of the 1975 Act to be provided by undertakers when intending to construct or bring back into use a large raised reservoir

12. The information that is to be given in a notice served by an undertaker under section 21(1) of the 1975 Act on the NRBW is the information prescribed in Schedule 7.

Reports to the NRBW

13.—(1) This regulation applies in relation to any incident—

- (a) which results, or could result, in the uncontrolled release of water from a large raised reservoir; and
- (b) in respect of which emergency measures have been taken to prevent any or any further uncontrolled release of water and to minimise the danger to human life.

(2) Where this regulation applies, the undertaker must send to the NRBW—

- (a) a preliminary report of the incident as soon as practicable after the commencement of the emergency measures; and
- (b) a final report of the incident within one year beginning with the day after the day on which the emergency measures were commenced.

(1) Diwygiwyd adran 12 mewn perthynas â Lloegr a Chymru gan adran 33 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p.29) a pharagraff 17 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno.

(1) Section 12 was amended in relation to England and Wales by section 33 of, and paragraph 17 of Schedule 4 to, the Flood and Water Management Act 2010 (c.29).

(3) Rhaid i'r adroddiad rhagarweiniol gynnwys digon o fanylion i alluogi CANC i ganfod dyddiad ac amser y digwyddiad, lleoliad y gronfa ddŵr a chadarnhau'r ffeithiau sy'n weladwy ar unwaith.

(4) Rhaid i'r adroddiad terfynol o'r digwyddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(b) gynnwys—

- (a) y ffeithiau am y digwyddiad;
- (b) dadansoddiad o'i amgylchiadau;
- (c) casgliadau y gellir dod iddynt o'r dadansoddiad hwnnw gyda rhesymau dros y casgliadau;
- (d) cadarnhad o ba gamau a argymhellir ar gyfer osgoi ailadrodd y digwyddiad.

(5) Caiff CANC roi cyfarwyddyd i ymgwymerwr ddiwygio'r adroddiad terfynol ond mae'n rhaid iddo —

- (a) egluro'r rheswm bod angen pob diwygiad; a
- (b) pennu'r cyfnod o ddim llai na thri mis y mae'n rhaid i'r ymgwymerwr wneud y diwygiadau oddi mewn iddo.

(6) Nid yw diwygiadau i'r adroddiad terfynol yn effeithiol oni bai—

- (a) bod yr ymgwymerwr wedi anfon fersiwn o'r adroddiad at CANC sy'n cynnwys y diwygiadau a hysbyswyd gan CANC, a
- (b) bod CANC wedi derbyn y diwygiadau.

Dirymiadau

14. Dirymir y Rheoliadau canlynol—

- (a) Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Cofrestrau, Adroddiadau a Chofnodion) 1985(1);
- (b) Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Cofrestrau, Adroddiadau a Chofnodion) (Diwygio) 1985(2);
- (c) Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Tystysgrifau, Adroddiadau a Gwybodaeth Ragnodedig) 1986(3).

(3) The preliminary report must contain sufficient particulars to enable the NRBW to ascertain the date and time of the incident, the location of the reservoir and confirm the immediately observable facts.

(4) The final report of the incident referred to in paragraph (2)(b) must contain—

- (a) the facts of the incident;
- (b) analysis of its circumstances;
- (c) conclusions that can be drawn from that analysis with reasons for the conclusions;
- (d) confirmation of what steps are recommended to avoid a repeat of the incident.

(5) The NRBW may direct an undertaker to revise the final report but must —

- (a) explain the reasons why each revision is necessary; and
- (b) specify a period, not less than three months, within which the undertaker must make the revisions.

(6) Revisions to the final report are not be effective unless—

- (a) the undertaker has sent a version of the report to the NRBW which incorporates the revisions notified by the NRBW, and
- (b) the NRBW has accepted the revisions.

Revocations

14. The following Regulations are revoked—

- (a) the Reservoirs Act 1975 (Registers, Reports and Records) Regulations 1985(1);
- (b) the Reservoirs Act 1975 (Registers, Reports and Records) (Amendment) Regulations 1985(2);
- (c) the Reservoirs Act 1975 (Certificates, Reports and Prescribed Information) Regulations 1986(3).

Carl Sargeant,

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weiniogion
Cymru
27 Ionawr 2016

Minister for Natural Resources, one of the Welsh
Ministers
27 January 2016

(1) O.S. 1985/177.
(2) O.S. 1985/548.
(3) O.S. 1986/468.

(1) S.I. 1985/177.
(2) S.I. 1985/548.
(3) S.I. 1986/468.

Gwybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi yng
nghofrestrau cyforgronfeydd ddŵr mawr
Cymru

1. Enw a safle'r gronfa ddŵr.
2. Cyfeirnod grid cenedlaethol y gronfa ddŵr.
3. Enw a chyfeiriad pob ymgymerwr sydd yn gyfrifol am y gronfa ddŵr.
4. Crynodeb o gynnwys pob tystysgrif neu adroddiad a wnaed o dan Ddeddf 1975, neu Ddeddf 1930, gan gynnwys—
 - (a) enw a chyfeiriad y peiriannydd sy'n rhoi'r dystysgrif neu'n gwneud yr adroddiad;
 - (b) yr adran o ba bynnag Ddeddf y rhoddir y dystysgrif neu y gwneir yr adroddiad oddi tani;
 - (c) pan nad yw tystysgrif derfynol wedi ei rhoi o dan Ddeddf 1975, datganiad o'r ffaith honno;
 - (d) pan nad yw tystysgrif derfynol wedi ei rhoi o dan Ddeddf 1930 am fod gwaith adeiladu neu addasu'r gronfa ddŵr wedi ei gwblhau cyn dechrau'r Ddeddf honno, datganiad o'r ffaith honno.
